IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 4 TACHWEDD 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Murphy |

## 21 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 22 : CAIS I GYMERADWYO TRWYDDED BERSONOL

Ystyriodd y Pwyllgor gais am Drwydded Bersonol a dderbyniwyd gan Mr S Forde. Ymgynghorwyd â Heddlu De Cymru ar y cais a oedd wedi gwrthod y cais ar sail euogfarn blaenorol yr ymgeisydd.

Derbyniodd y Pwyllgor sylwadau gan Heddlu De Cymru a gan Mr Forde. Derbyniwyd sylwadau hefyd gan Mr Lanning, a weithredodd fel tyst dros gymeriad Mr Forde.

DATRYSWYD – Bod y cais am drwydded bersonol i'w chaniatáu.

## 23 : CAIS CYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - ORGANICAFE

Ymgeiswyr: Michaela Fantozzi

Pobl Eraill â Diddordeb: Y Cynghorydd Graham Hinchey
Mrs Jenny McClelland

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Mr Luca Fantozzi yn gysylltiedig ag Organiccafe, 104 Caerphilly Road, Llwynbedw, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) O safbwynt y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd)

"Caffi a delicatessen."

(3) Oni bai y nodir fel arall gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 08:00 tan 17:30
Dydd Sul: 09:00 tan 15:00

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 08:00 tan 17:30
Dydd Sul: 09:00 tan 15:00

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr ymgeisydd wedi cytuno dderbyn yr amodau a awgrymwyd yn y sylwadau oedd wedi'u derbyn gan Heddlu De Cymru. Felly byddai'r cais yn cael ei amrywio i gynnwys yr amodau canlynol:

1. Bydd y drwydded safle yn ddilys gyhyd ag y bo prif ddefnydd yr eiddo fel caffi/tŷ bwyta.
2. Caiff system teledu cylch cyfyng ei gosod i safon a gytunir gyda Heddlu De Cymru. Caiff ei gynnal a'i weithredu drwy'r adeg pan fo'r eiddo ar agor a bod alcohol ar werth. Bydd y system yn cadw golwg ar bob ardal lle mae gan y cyhoedd fynediad ato (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa cyhoeddus a mannau allanol a ddefnyddir gan gwsmeriaid. Caiff delweddau eu cadw am leiafswm o 31 diwrnod. Caiff y delweddau eu darparu i gyflogai'r Heddlu neu swyddog awdurdodedig o adran Drwyddedu Cyngor Caerdydd ar ffurf hawdd ei chwarae a hynny'n syth ar gais pan fo'r eiddo ar gaor ac ar adegau eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd hyfforddi staff digonol i hwyluso'r uchod.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Siaradodd y Cynghorydd Graham Hinchey ger bron yr Is-Bwyllgor. Nododd y Cynghorydd Hinchey fod y Cyngor wedi bod yn gweithio i adfywio canolfannau siopa lleol ledled y ddinas drwy annog busnesau lleol a thrwy annog preswylwyr i siopa a bwyta'n lleol. Roedd yr ymgeiswyr yn breswylwyr lleol oedd yn byw o fewn pellter cerdded i'r eiddo. Roedd dros 30 mlynedd o brofiad ganddynt yn y fasnach rhyngddyn nhw ac roeddent am ddarparu bwyd Eidalaidd organig o safon uchel.

Hysbyswyd aelodau nad oedd yr eiddo ar agor gyda'r nos. Roedd y cais yn un cymedrol a'i fwriad oedd caniatáu gwydraid o win gyda phryd bwyd. Roedd yr eiddo yn annibynnol ac ni fyddai yfed alcohol y tu allan i'r adeilad.

Nododd y Cynghorydd Hinchey fod yr ymgeisyddion yn reolwyr cyfrifol a bod yr eiddo yn boblogaidd yn lleol. Doedd dim achos o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn ymwneud â'r eiddo.

Nododd Michaela Fantozzi fod yr eiddo yn dawel a byddai gofal mawr ar waith wrth weini alcohol.

Nododd Mrs Jenny McClelland wrth Aelodau ei bod yn byw yn lleol a mynychu'r caffi yn rheolaidd. Roedd ei chlwb gwau yn defnyddio'r caffi ar gyfer cinio bwffe ac roedd hi hefyd yn trefnu sesiynau TG galw heibio. Nododd Mrs McClelland fod y caffi yn adnodd cymunedol.

Wrth ymateb i gwestiynau gan aelodau, nododd yr ymgeisydd ei bod yn bwriadu gwneud cais am drwydded bersonol unwaith bod y drwydded safle yn ei le. Roedd y cais yn cwmpasu gwerthiant oddi ar y safle fyddai'n caniatáu i gwsmeriaid allu prynu potel o rai o'r gwinoedd unigryw fyddai ar gael.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr is-bwyllgor y cais.

24 : CAIS CYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - CORNERSTONE

Ymgeiswyr: Bwrdd Spiro, wedi eu cynrychioli gan Mr Mathew Phipps

Awdurdodau Cyfrifol: Rob Gunstone, Heddlu De Cymru
Cheryl Williams, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Y Cais

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) O safbwynt y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio:

3. Darparu lluniaeth hwyr y nos:

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd)

"Bydd yr adeilad wedi ei adfer yn cynnwys caffi myfyrwyr rhyngwladol llawr llawr, adnodd ciniawa a chynadledda i fyny'r grisiau gan gadw'r neuadd gefn fel adnodd cymunedol. Bydd tenant masnachol (Spiro's) yn gyrru'r busnes gan greu 6 swydd llawn amser ac 20 o swyddi rhan amser. Byddai partneriaeth gydag RNIB Cymru yn darparu cyflogaeth a hyfforddiant, adnoddau garddio i'r deillion ynghyd â gofod awyr agored i gŵn tywys. Byddai grwpiau cymunedol, ysgolion, ayb yn defnyddio'r adeilad a'r neuadd a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y GIG. Dymuniad Prifysgol Caerdydd yw bod y caffi yn dod yn hwb i fyfyrwyr rhyngwladol."

(3) Oni bai y nodir fel arall gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 01:30
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 08:00 tan 02:30

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

Dydd Sul i ddydd Iau: 10:00 tan 01:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 02:00

2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio (tu fewn):

Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 01:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 08:00 tan 02:00

3. Darparu lluniaeth hwyr y nos:

Dydd Sul i ddydd Iau: 23:00 tan 01:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 23:00 tan 02:00

Ar ddechrau'r cyfarfod nododd Mr Mathew Phipps, wedi trafodaethau maith rhwng y partïon, bod yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol wedi dod i gytundeb. Nododd Mr Phipps bod yr amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru fel y'u gosodwyd mewn llythyr dyddiedig 21 Hydref 2016, yn dderbyniol gan yr ymgeisyddion, ond gyda sawl diwygiad. Nododd Mr Phipps wrth Aelodau'r Is Bwyllgor union eiriad yr amodau diwygiedig a gytunwyd.

Felly byddai'r cais yn cael ei amrywio i gynnwys yr amodau canlynol:

GOSODER YR AMOD YMA

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr is-bwyllgor y cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm